Awst 2025

# Adolygiad 2025 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae

## Taflen wybodaeth #3

**Fel Cadeirydd Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae'r DU, mae'n bleser gennyf ddarparu'r diweddariad interim hwn ar yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS).**

**Mae'r sefydliadau cenedlaethol yn goruchwylio'r adolygiad o'r NOS ac yn parhau i graffu ar waith y Grŵp Ysgrifennu NOS. Rydym yn falch o weld y drafodaeth a'r ystyriaeth ddwys sy'n cael ei rhoi i'r broses gan y Grŵp Ysgrifennu.**

**Hoffwn hefyd gydnabod pawb sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r Grŵp Cynghori ar yr NOS. Bydd eu harbenigedd yn helpu i lunio'r safonau drafft.**

**Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi diweddariad ar y broses adolygu hyd yn hyn.**

**Jane Hawkshaw**

## Trosolwg

Mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ei adolygiad a hunan-ariannwyd o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cwmpasu'r pedair gwlad – Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr – ac fe'i cefnogir gan arbenigwyr yn y sector, Cynghorau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC Lloegr, PETC Gogledd Iwerddon, Playwork Scotland a PETC Cymru), a rhanddeiliaid ledled y DU.

## Cyflawniadau allweddol

### 1. Sefydlu grwpiau arbenigol

Fel rhan o'r broses adolygu rydym wedi sefydlu dau grŵp allweddol a fydd yn llywio'r broses o adolygu'r NOS.

- **Grŵp Ysgrifennu NOS:** Yn cynnwys arbenigwyr yn y sector o'r pedair gwlad, sy'n gyfrifol am ddrafftio'r NOS newydd. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers mis Ionawr 2025 ac mae'n gyfrifol am ddrafftio'r NOS.
- **Grŵp Cynghori ar yr NOS:** Mae hwn yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Grŵp Ysgrifennu a'r Consortiwm, gan ddarparu adborth a phroses graffu gan y sector. Cyfarfu'r Grŵp Cynghori ym mis Mawrth 2025 i adolygu'r map gweithredol a bydd yn cyfarfod eto yn yr Hydref i adolygu'r NOS drafft a newidiadau i'r map gweithredol.

### 2. Datblygu'r map swyddogaethol

Drafftiwyd map swyddogaethol i amlinellu prif bwrpas, prif swyddogaethau, a swyddogaethau lefel nesaf gwaith chwarae. Mae hyn yn rhan o'r broses o ddatblygu NOS fel y'i hamlinellir gan y Panel Safonau a Fframweithiau. Mae'r map swyddogaethol drafft wedi'i rannu gyda'r Grŵp Cynghori a rhai grwpiau eraill o randdeiliaid er mwyn cael adborth. Mae'r map swyddogaethol yn parhau i esblygu wrth i'r NOS eu hunain gael eu llunio.

Mae'r map swyddogaethol yn adlewyrchu:

- ffocws ar waith chwarae fel dull gweithred
- cydnabyddiaeth o'r ystod eang o leoliadau lle mae gwaith chwarae yn digwydd
- symleiddio'r safonau i sicrhau eu bod yn fwy cyfannol ac addas at y diben er mwyn llywio cymwysterau'r dyfodol, yn enwedig Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQs).
- integreiddio yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.



## 3. Adolygu a drafftio NOS

Cynhaliodd y Grŵp Ysgrifennu adolygiad o'r NOS presennol i lywio'r gwaith o ddatblygu NOS newydd ar gyfer gwaith chwarae. Drwy gydol y broses, mae terminoleg yn cael ei mireinio ac mae geirfa yn cael ei datblygu i sicrhau bod iaith glir, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn iaith ar draws y pedair gwlad, yn cael ei defnyddio.

Mae'r Grŵp Ysgrifennu NOS hefyd yn gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng yr NOS gwaith chwarae a'r NOS ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal plant. Gall hyn gynnwys defnyddio rhai NOS o'r meysydd gwasanaethau cymdeithasol a gofal plant i gryfhau'r NOS gwaith chwarae.

## 4. Trefniadau llywodraethu

Cymeradwyodd y consortiwm ei gylch gorchwyl a'i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r dogfennau hyn yn dangos ymrwymiad clir gan yr aelodau i barhau â'r consortiwm ar ôl i'r adolygiad o'r NOS gael ei gwblhau er mwyn cynnig arweinyddiaeth strategol ac arbenigedd mewn perthynas ag NOS a sgiliau sector.

## 5. Ymgysylltu â'r sector ac adborth

Yn ogystal â chyfarfodydd y Grŵp Cynghori, rydym wedi hwyluso sesiynau gwybodaeth ar y map swyddogaethol yn y Gynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae ac yn y Fforwm Gweithwyr Chwarae.

Bydd mwy o waith ymgysylltu yn cael ei wneud gyda'r Grŵp Cynghori yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyn cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol ar-lein i ymgynghori ar y safonau drafft.

Oherwydd lefel y manylion yn yr adolygiad hyd yma, rydym bellach yn rhagweld y bydd y digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cynnal tua diwedd 2025/dechrau 2026.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiben NOS, y broses gymeradwyo a Chonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU, darllenwch **daflen wybodaeth #1 taflen wybodaeth #2** neu anfonwch e-bost at: **adolygiadnos@chwarae.cymru**